

"Mae'r e-lyfrgell yn ffynhonnell ardderchog o lenyddiaeth i ategu arfer ar sail tystiolaeth gyfredol"

*adborth defnyddiwr yr e-lyfrgell*

## CYSYLLTU Â NI

www.wales.nhs.uk/elibrary
howis.wales.nhs.uk/elibrary*

*fewnrwyd - dim ond ar gael trwy rwydwaith GIG Cymru

Ar gyfer ymholiadau **technegol neu i gael mwy o wybodaeth** am yr e-lyfrgell, defnyddiwch y ffurflen adborth ar-lein: www.wales.nhs.uk/elibrary/feedback

Dilynwch ni @NHSWaleselib

Ar gyfer hyfforddiant a chyngor ar sut I ddefnyddio'r e-adnoddau neu i gyfrestru ar gyfer cyfrif LibrarySearch GIG Cymru, cysylltwch â'ch llyfrgell leol:

Medi 2018

**Mynediad gan ddefnyddio dyfais ar rwydwaith GIG Cymru:** Ewch i **safle mewnrwyd yr e-Lyfrgell** a chliciwch ar e-adnodd neu chwiliwch trwy'r bar LibrarySearch. Ni fydd angen i chi fewngofnodi i gyrchu unrhyw e-adnoddau.

**Mynediad o adref neu Wi-Fi cyhoeddus:** Ewch i **safle rhyngrwyd yr e-Lyfrgell** a chliciwch ar adnodd a rhowch eich manylion mewngofnodi OpenAthens.

*NEU*

Chwiliwch trwy'r bar LibrarySearch, cliciwch ar yr e-adnodd a rhowch eich manylion mewngofnodi LibrarySearch GIG Cymru, yna eich manylion mewngofnodi OpenAthens.

Cysylltwch **â'ch Llyfrgell GIG Cymru leol** i gael manylion mewngofnodi LibrarySearch.

Cofrestrwch ar **gyfer cyfrif OpenAthens** register.openathens.net/wales.nhs.uk/register

OpenAthens





newydd a gwell

e-Lyfrgell Iechyd

Ffynhonnell Ddigidol GIG Cymru ar gyfer Gwybodaeth a Thystiolaeth

GIG CYMRU NHS WALES Gwasanaeth Gwybodeg Informatics Service

Cefnogir gan Lywodraeth Cymru
Supported by Welsh Government

## AMDANOM NI

Mae **e-Lyfrgell Iechyd GIG Cymru** ar gael i holl weithwyr GIG Cymru, deiliaid contractau, hyfforddeion, hyfforddwyr a myfyrwyr ar leoliad. Mae'n ategu cyflwyno gofal iechyd yn effeithiol trwy ddarparu gwybodaeth gofal iechyd o ansawdd uchel ar sail tystiolaeth.

## CRONFEYDD DATA

Mynediad at amrywiaeth o gronfeydd data, gan gynnwys: **MEDLINE, Embase, PsycINFO, HMIC, AMED, EMCare, British Nursing Database, Cochrane Library, TRAVAX, PEDro** a **Social Care Online.**

## e-DDYSGU

Enillwch bwyntiau CPD a CME trwy gyrchu e-ddysgu addysg meddygol parhaus gan **BMJ Learning.** Mae'r modiwlau o ansawdd uchel, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac maent yn ymdrin ag amrywiaeth eang o bynciau clinigol a sgiliau proffesiynol.

## GWYBODAETH AM FEDDYGINIAETHAU

Cewch fynediad at wybodaeth gan **Micromedex** a'r **British National Formulary (BNF** a **BNFc)**. Gallwch hefyd lawrlwytho apiau **BNF** i'ch dyfais.

## CANLLAWIAU

Cewch hyd i weithdrefnau clinigol cyfredol gan **Royal Marsden Manual of Clinical Nursing Procedures Online** a chanllawiau archwilio radiolegol gan **iRefer.**

## HYFFORDDIANT A CHYMORTH

Cewch hyd i **fideos** a **chanllawiau hyfforddi** ar wefannau'r e-Lyfrgell, a gallwch gysylltu â'ch Llyfrgell GIG Cymru leol i gael hyfforddiant, cyngor a chymorth gan ddefnyddio'r e-adnoddau.

## OFFER PWYNT GOFAL

Dewch o hyd i'r ymchwil ar sail tystiolaeth, canllawiau, barn a thaflenni gwybodaeth cleifion diweddaraf gan ddefnyddio **BMJ Best Practice** a **Dynamed Plus** i ategu diagnosis, prognosis, triniaeth ac atal.

## e-GYFNODOLION

Mynediad at dros **2,300 o e-gyfnodolion iechyd** a **meddygaeth tanysgrifiad testun llawn a dros 2,200 o e-gyfnodolion iechyd a meddygaeth OpenAccess** gan gynnwys **BMJ, Elsevier, Emerald, JAMA, Karger, LWW, Mark Allen, Nature, OUP, RCNi, Springer, Taylor & Francis, Wiley** a mwy...

## CLINICALKEY A CLINICALKEY NURSING

Gallwch gyrchu **e-gyfnodolion, e-lyfrau, trosolygon clinigol, gweithdrefnau,** a **monograffau** cyffuriau gan Elsevier. Mae'r peiriant chwilio clinigol yn ei gwneud hi'n hawdd i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ddod o hyd i wybodaeth berthnasol a'i rhoi ar waith i'w helpu i wneud penderfyniadau gwell.

